Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

## YMDRIN AG ADDYSGU UNED 1

» Mae gan Uned 1 nifer o nodweddion pwysig iawn:

- mae'n ymdrin â chyfnod hir o Hanes gan ei bod yn cyflawni'r meini prawf cenedlaethol bod rhaid astudio Hanes yn eang ar safon UG ac Uwch
- mae'n canolbwyntio'n llwyr ar asesu'r ddealltwriaeth o gysyniadau hanesyddol allweddol fel maent yn cael eu pennu yn Amcan Asesu 1
- mae ei ffocws ar sgiliau yn hytrach nag ar gynnwys a ffeithiau

» Pwysleisir bod rhaid addysgu'r holl gynnwys ym mhob opsiwn, er y pwysleisir hefyd nad oes rhaid i'r cynnwys gael ei addysgu'n drylwyr.

## CYNGOR YNGHYLCH SUT I DRIN CYNNWYS ASTUDIAETH O GYFNOD 1 UNED 1

**Er mwyn rheoli cynnwys Astudiaeth o Gyfnod 1,** argymhellir bod yr athrawon yn anelu at ddefnyddio trosolwg cyffredinol o unigolion, digwyddiadau, termau a dyddiadau pwysig sy'n hanfodol i'r ddealltwriaeth o bob topig neu fater. Mae'n hanfodol pwysleisio y dylid ystyried yr Astudiaeth o Gyfnod fel cyfanwaith a ble bo'n briodol, dylid gwneud cysylltau a chysylltiadau rhwng ac ar draws nodweddion a phriodweddau.

Un ffordd bosibl o reoli cynnwys yr opsiwn hwn yw dechrau pob prif dopig gyda thrafodaeth. Mae dechrau a diweddu'r astudiaeth o bob topig neu fater gyda thrafodaethau neu ddadleuon yn helpu i ganolbwyntio'r sylw ar nodweddion arwyddocaol sy'n gysylltiedig â'r topig neu'r mater. Dylai hyn helpu'r dysgwyr i ganolbwyntio'u sylw ar beth sydd bwysicaf yn y cyfnod a astudir.

Dylai'r athrawon wneud defnydd o'r amrywiaeth o drafodaethau awgrymedig fel dull o drefnu eu hymagwedd at gynnwys y fanyleb, ond ni ddylent gymryd yn ganiataol na disgwyl y bydd cwestiynau arholiad yn cael eu gosod yn uniongyrchol neu eu seilio'n gyfan gwbl ar unrhyw rai o'r trafodaethau a awgrymir isod.

© Hawlfraint y Goron 2018

Ariennir gan Llywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government
cbac wjec

**Gellir rheoli cynnwys Astudiaeth o Gyfnod 1 drwy gynnal cyfres o drafodaethau neu ddadleuon.** Mae'r awgrymiadau'n cynnwys:

- Trafodwch y dulliau a ddefnyddiwyd gan Harri VII i sefydlu llinach y Tuduriaid.
- Aseswch y berthynas rhwng y brenhinoedd Tuduraidd a'u gweinidogion yn y cyfnod 1485-1547.
- Aseswch y berthynas rhwng y brenhinoedd Tuduraidd a'u seneddau yn y cyfnod 1529-1603.
- Trafodwch arwyddocâd y prif newidiadau mewn crefydd ar ôl 1529.
- Dadansoddwch y rhesymau dros gychwyn y protestiadau a'r gwrthryfeloedd yn y cyfnod hyd at 1569.
- Gwerthuswch y rhesymau pam fethodd y protestiadau a'r gwrthryfeloedd yn y cyfnod hyd at 1569.
- Amlinellwch y newid mewn agweddau tuag at dlodi a chrwydraeth yn yr unfed ganrif ar bymtheg.
- Trafodwch faint y newid economaidd a chymdeithasol yn yr unfed ganrif ar bymtheg.
- Trafodwch i ba raddau newidiodd y berthynas rhwng Cymru a Lloegr ar ôl 1530.


© Hawlfraint y Goron 2018

## GWEITHGAREDD 1: DEFNYDDIO DARLUNIAU I DRAFOD CYSYNIADAU

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Er mwyn cyflwyno a dadlau rhai o'r trafodaethau awgrymedig yn yr opsiwn hwn mae'n bosibl defnyddio darluniau i gyflwyno neu ddatblygu dealltwriaeth o rai o'r materion. Gellir cyflwyno, datblygu, dadlau neu adolygu'r rhan fwyaf o'r cynnwys penodedig sy'n cael ei drafod yn yr opsiwn hwn gan ddefnyddio darluniau. Gall y rhain fod yn gartwnau, paentiadau, printiau neu fapiau. Islaw rhoddir enghraifft sy'n canolbwyntio ar drafod y cysyniad o **nodweddion sy'n debyg ac yn wahanol.**

Mae'r mapiau isod yn dangos cyfansoddiad gwleidyddol Cymru yn 1520 ac eto yn 1536. Defnyddiwch y mapiau i ddechrau trafodaeth ar beth oedd yn debyg a beth oedd yn wahanol yng Nghymru rhwng 1520 ac 1536. Trafodwch pam ddigwyddodd y newidiadau hyn yng Nghymru.






## GWEITHGAREDD 2: Rhowch radd Coch/Melyn/Gwyrdd (CMG) i'r nodweddion a'r priodweddau allweddol

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Ar gyfer pob un o'r trafodaethau awgrymedig a roddir uchod, dylai'r dysgwyr allu dadansoddi a gwerthuso amrywiaeth o'r nodweddion a'r priodweddau sy'n gysylltiedig â phob un. Er enghraifft, gellir ystyried y rhain am eu pwysigrwydd neu arwyddocâd ym mhob mater. I ddechrau'r broses hon, gallai'r dysgwyr ddefnyddio tri amlygwr lliw i roi seren Goch, Felen neu Werdd wrth ochr pob nodwedd.

Coch: Nodweddion sydd ag ond ychydig berthnasedd i'r ymholiad
Melyn: Nodweddion sydd â rhywfaint o berthnasedd i'r ymholiad
Gwyrdd: Nodweddion sy'n uniongyrchol berthnasol i'r ymholiad.

Byddai **gweithgareddau cysylltiedig** yn cynnwys defnyddio amlygwyr lliw i amlygu'r nodweddion a'r priodweddau hyn mewn perthynas ag:

**Amser** – ydyn nhw'n ffactorau tymor hir neu dymor byr?

**Persbectif** – ydyn nhw'n ffactorau unigol, gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, neu'n gyfuniad o'r rhain?

Dyma enghraifft o drafodaeth awgrymedig:

Dadansoddwch y rhesymau dros gychwyn y protestiadau a'r gwrthryfeloedd yn y cyfnod hyd at 1569.

Rhowch radd Coch / Melyn Gwyrdd (CMG) i'r nodweddion a'r priodweddau canlynol sy'n gysylltiedig â'r drafodaeth hon:

- Problemau economaidd fel tir caeedig, diweithdra, chwyddiant prisiau
- Cwynion crefyddol oherwydd newidiadau i grefydd y wladwriaeth, ffurfiau ar addoli
- Uchelgais gwleidyddol deiliaid grymus fel Wyatt a Northumberland
- Amhoblogrwydd polisïau'r llywodraeth fel cau'r mynachlogydd
- Amhoblogrwydd gweinidogion y llywodraeth fel Cromwell a Cecil

© Hawlfraint y Goron 2018

- Dicter a llid oherwydd trachwant a llygredd swyddogion lleol
- Ofn newid – cymdeithasol, crefyddol a diwylliannol
- Arweinyddiaeth wan ac analluog gan frenhinoedd a rhaglywiaid fel Mari a Somerset
- Twf y dosbarthiadau canol – masnachwyr, bwrdeiswyr, crefftwyr, iwmyn
- Gwahaniaethau a theyrngarwch rhanbarthol

Nawr gwnewch y gweithgaredd eto ar gyfer unrhyw dri o'r trafodaethau awgrymedig eraill ar dudalen 2.

© Hawlfraint y Goron 2018 

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

## GWEITHGAREDD 3: SYMUD O HONIAD I DDADL

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

**Gellir dilyn Gweithgaredd 2 gan un sy'n gofyn i'r dysgwyr gyfiawnhau eu penderfyniadau graddio Coch / Melyn / Gwyrdd (CMG). Bydd hyn yn helpu gyda'r ddealltwriaeth o'r gwahaniaeth rhwng honiad a dadl.**

**Honiad:** gosodiad neu farn nad ydyw'n cael ei hategu gan reswm neu fanylion ychwanegol.

**Dadl:** honiad a gyfiawnheir gan reswm neu fwy o fanylion ac sy'n egluro neu'n cyfiawnhau rhywbeth ac yn gwrthddweud dadleuon eraill.

**Er mwyn helpu i symud o honiad i ddadl,** darllenwch y cwestiwn enghreifftiol isod ac yna ategwch bob un o'r honiadau er mwyn ei droi'n ddadl.

**I ba raddau oedd y cyflwr economaidd yn bennaf gyfrifol am y protestio a'r gwrthryfela yn y cyfnod 1549-1569?**

H1: Chwaraeodd y cyflwr economaidd ran hanfodol wrth achosi protest a gwrthryfel yn y cyfnod hwn.

**Ategwch yr honiad hwn**

H2: Mater arall i'w ystyried yw bod pwysau gwleidyddol wedi achosi tensiwn cynyddol a chystadleuaeth ymhlith y pendefigion.

**Ategwch yr honiad hwn**

H3: Gellir dadlau mai'r hyn oedd wir yn gyfrifol am y brotest a'r gwrthryfel oedd effaith newid crefyddol.

**Ategwch yr honiad hwn**

© Hawlfraint y Goron 2018

## GWEITHGAREDD 4: DATBLYGU DADL RESYMEGOL

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Wrth ystyried y cysyniadau hanesyddol allweddol sy'n tanategu'r opsiwn hwn, disgwylir y bydd y dysgwyr yn dangos y gallu i ddadansoddi'r materion, gwerthuso'u pwysigrwydd ac yn gallu rhoi barn wedi'i chyfiawnhau sy'n cael ei ategu gan wybodaeth briodol dros y cyfnod a osodwyd. Yn aml, gellir gwneud hyn ar y cyd â'r ymagwedd trafodaethau awgrymedig a welir ar dudalen 2 o'r ddogfen hon. Gellir defnyddio pob enghraifft o'r trafodaethau awgrymedig a nodir i fynd i'r afael â chysyniadau hanesyddol penodol a hefyd i helpu dysgwyr i ddatblygu dadl resymegol.

Dyma rai enghreifftiau o sut gall athrawon a dysgwyr fynd ati i ddatblygu dadl resymegol wrth ateb cwestiwn gosod:

**'Y newid crefyddol mwyaf arwyddocaol yn y cyfnod 1529-1559 oedd diddymu'r mynachlogydd.' Trafodwch**

**Nodweddion allweddol:**

Y pwysau dros ddiwygio crefyddol gan Brotestaniaid radical

Diwygiad Harri VIII

Diwygiad Edward

Gwrthddiwygiad Mari

Ardrefniant Eglwysig Elisabeth

**Tystiolaeth i ategu'r gosodiad:**

Natur ac effaith y diddymu

Arwyddocâd crefyddol, cymdeithasol ac economaidd y diddymu

Arwyddocâd y diddymu o ran y gydberthynas rhwng yr Eglwys a'r Wladwriaeth

**Ymdriniaeth o'r cyfnod:**

Newidiadau crefyddol Harri, 1529-1547

Diwygiad Protestannaidd Edward, 1547-1553

Gwrthddiwygiad Pabyddol Mari, 1553-1558

Ardrefniant Eglwysig Elisabeth, 1559

**Tystiolaeth i ddechrau dadl ynglŷn â'r gosodiad yn cynnwys gwerthuso arwyddocâd:**

Yr Ymwahanu oddi wrth Rufain


Twf Protestaniaeth

Adfer Pabyddiaeth o dan y Frenhines Mari

Ardrefniant Eglwysig Elisabeth

© Hawlfraint y Goron 2018

Gan ddefnyddio'r enghraifft uchod, **llenwch y diagram sy'n dilyn** ar gyfer dau gwestiwn arall sydd wedi ymddangos ar gyn-bapurau arholiad ar gyfer yr opsiwn hwn.




© Hawlfraint y Goron 2018

## GWEITHGAREDD 5: CYSYLLTU CYNNWYS Â CHYSYNIADAU ALLWEDDOL

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Mae Amcan Asesu 1 yn amlinellu nifer o gysyniadau sy'n tanategu'r astudiaeth o Hanes UG a Safon Uwch. Wrth ymateb i'w haseiniadau, mae dysgwyr yn aml yn methu â chanolbwyntio ar y cysyniadau allweddol yn eu hymatebion. Yn lle hynny maent yn rhoi gwybodaeth yn null naratif neu restr.

Mae'n bwysig bod y dysgwyr yn deall bod cynnwys Astudiaeth o Gyfnod 1 wedi'i gysylltu â'r cysyniadau hanesyddol allweddol sy'n tanategu AA1. Dangosir y cysyniadau allweddol hyn isod gydag enghreifftiau o sut gellir defnyddio cynnwys yr opsiwn hwn i enghreifftio'r cysyniadau penodol hyn.

Edrychwch ar y fanyleb rydych yn ei hastudio ar gyfer Astudiaeth o Gyfnod 1. **Nodwch ddwy nodwedd arall o gynnwys y fanyleb a all enghreifftio pob cysyniad allweddol.**

Cofiwch y gellir defnyddio'r cynnwys penodedig i enghreifftio mwy nag un cysyniad os yw'n briodol.

| Cysyniadau allweddol | Enghreifftiau o gynnwys i enghreifftio'r cysyniadau hyn | |
|---|---|---|
| Achos a chanlyniad | 1 | **Prif achosion** yr anhrefn, protest a gwrthryfel, 1525-1569 |
| | 2 | |
| | 3 | |
| Newid a pharhad | 1 | **Y newid yn rôl** y brenhinoedd yn y datblygiadau mewn crefydd, 1529-1588 |
| | 2 | |
| | 3 | |
| Nodweddion sy'n debyg ac yn wahanol | 1 | I ba raddau **newidiodd** y berthynas rhwng Cymru a Lloegr, 1536-1603? |
| | 2 | |
| | 3 | |
| Arwyddocâd a phwysigrwydd | 1 | **Arwyddocâd** twf y trefi yn yr unfed ganrif ar bymtheg |
| | 2 | |
| | 3 | |

© Hawlfraint y Goron 2018

## GWEITHGAREDD 6: ADNABOD CYSYNIADAU HANESYDDOL

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Bydd pob un o'r cwestiynau a osodir ar gyfer Uned 1 yn disgwyl i chi gyflwyno dadl dros gysyniad hanesyddol. I wneud hyn yn effeithiol dylech ddod yn grefftus wrth adnabod y cysyniad a'r gwerthusiad y mae'r cwestiwn yn gofyn amdanynt.

A allwch chi nodi'r cysyniad allweddol o'r cwestiynau enghreifftiol isod? Mae'r cyntaf wedi ei gwblhau a'i ddangos mewn **print trwm.**

- 'Y **dylanwad mwyaf** ar agwedd y llywodraeth tuag at dlodi a chrwydraeth oedd ofn trosedd yn y cyfnod 1495-1601.' Trafodwch.
- I ba raddau oedd grym cynyddol y Senedd yn cynrychioli'r datblygiad mwyaf arwyddocaol mewn gwleidyddiaeth a llywodraeth yn y cyfnod 1485-1547?
- I ba raddau ydych chi'n cytuno mai twf trefi oedd y datblygiad mwyaf arwyddocaol yng nghymdeithas ac economi Cymru a Lloegr yn yr unfed ganrif ar bymtheg?
- Ai'r galw am lywodraeth gref yng Nghymru oedd yn bennaf gyfrifol am y Deddfau Uno yn y cyfnod 1500-1543?
- Pa mor llwyddiannus oedd y Goron yn delio â'r bygythiad o brotest a gwrthryfel yn y cyfnod 1536-1569?
- I ba raddau gellid dweud mai gyrfa Thomas Cromwell oedd y dylanwad pwysicaf ar y newidiadau mewn gwleidyddiaeth a llywodraeth yn ystod y cyfnod 1515-1598?

Gallwch hefyd ddefnyddio cyfleuster Banc Cwestiynau CBAC i ymarfer adnabod y cysyniadau allweddol mewn amrywiaeth o hen gwestiynau eraill. Mae hwn ar gael yn:

http://www.cbac.co.uk/question-bank/index.html?language_id=2

© Hawlfraint y Goron 2018 

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

cbac wjec

## GWEITHGAREDD 7: GOSOD CWESTIYNAU CYSYNIADOL PRIODOL

### CYNGOR YNGHYLCH DEFNYDDIO'R GWEITHGAREDD HWN

Er mwyn deall natur ehangach Uned 1 mae'n bwysig bod athrawon a dysgwyr yn ymgyfarwyddo â sut mae cwestiynau cysyniadol yn cael eu ffurfio, sut gellir eu brawddegu a sut gellir eu haddasu yn ôl pa faes o'r astudiaeth o gyfnod a addysgir. Cynigir y cyngor canlynol:

- dylai'r cwestiwn fod yn **fater prif ffrwd** sydd wedi'i enwi neu ei gysylltu'n agos â'r manylion yn y fanyleb. Ceisiwch beidio â gosod cwestiynau ar rannau mân neu ddibwys o'r fanyleb.
- Rhaid bod yna **ddigon o sylwedd** i'r prif fater a osodir fel y bydd yn hybu dadl fywiog ar y topig a astudir. Peidiwch â gosod mater y mae'n hawdd i'r dysgwyr ei ddiystyru
- dylai'r cwestiwn a osodir ymdrin â **chyfnod sylweddol o amser**
- dylai fod modd i'r dysgwyr **gynnal dadl** drwy gydol yr ateb
- dylai'r cwestiwn ganiatáu i'r dysgwyr ddangos bod ganddynt **ddealltwriaeth o'r cysyniad hanesyddol perthnasol** yn y cwestiwn
- dylai'r cwestiwn gynnwys **gair neu eiriau allweddol** a fydd yn caniatáu i'r dysgwyr ffurfio barn gytbwys e.e. *'Y brenin oedd y prif ddylanwad ar ddatblygiad gwleidyddiaeth a llywodraeth yn y cyfnod rhwng 1547 ac 1603.' Trafodwch.*

Ffordd awgrymedig o ymdrin â'r agwedd hon ar ddysgu yw defnyddio'r rhestr wirio ganlynol pan osodir tasgau a chwestiynau ar gyfer y dysgwyr.

| Ydy'r cwestiwn a osodwyd yn... | YDY | NAC YDY |
|---|---|---|
| amlygu mater prif ffrwd? | | |
| hyrwyddo ymgysylltu â dadl? | | |
| ymdrin â chyfnod sylweddol o amser? | | |
| canolbwyntio ar gysyniad hanesyddol allweddol? | | |
| cynnwys gair gwerthusol? | | |

Ceisiwch osod eich cwestiynau cysyniadol eich hun ar gynnwys Astudiaeth o Gyfnod 1. A allwch chi osod cwestiynau cysyniadol priodol ar y meysydd cynnwys canlynol?

- Achosion Diwygiad Harri VIII, 1507-1529
- Y rhesymau dros fethiant y protestiadau a'r gwrthryfeloedd, 1536-1569
- Cymhariaeth o'r rolau a chwaraewyd gan y brenhinoedd mewn newid crefyddol, 1529-1558
- Effaith y newid gwleidyddol ac economaidd, 1500-1600
- Pwysigrwydd y gweinidogion yn llywodraeth y Tuduriaid, 1507-1603

Unwaith y byddwch wedi gwneud hyn, ceisiwch roi gradd CMG i'r nodweddion allweddol sy'n gysylltiedig â'ch cwestiynau.

© Hawlfraint y Goron 2018 

## GWEITHGAREDD 8: GWERTHUSO GWAITH YN NULL TRAETHAWD

Dyma ddwy enghraifft o atebion i gwestiynau Uned 1 a osodwyd yn arholiadau 2017.

- Allwch chi gymhwyso'r rhestr wirio ar dudalen 11 y ddogfen Cyflwyno cysyniadau hanesyddol yn Uned 1 at y traethodau hyn?
- Ystyriwch gryfderau a chyfyngiadau pob traethawd.
- Ystyriwch sut gallech wella pob un a pha gyngor allech chi ei roi i'r dysgwr a'i hysgrifennodd.

© Hawlfraint y Goron 2018

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

cbac wjec

## Enghraifft batrymol 1

**'Y prif reswm dros fethiant gwrthryfeloedd yn y cyfnod rhwng 1536 ac 1558 oedd cryfder y Goron.' Trafodwch.**

Roedd llawer o resymau dros fethiant y gwrthryfeloedd yn ystod y cyfnod rhwng 1536 ac 1558.

Un o'r rhesymau pam fethodd y gwrthryfeloedd oedd oherwydd crefydd y goron. Prif grefydd y goron oedd protestaniaeth, gan roi sefydlogrwydd i'r wlad a gan fod y rhan fwyaf o'r boblogaeth yn brotestaniaid ar y pryd, roedd hyn yn golygu y byddai llai o bobl yn gwrthryfela yn erbyn y goron.

Roedd Harri'r wythfed wedi gosod llawer o bolisïau yn eu lle i atal gwrthryfel a dangosodd yn glir i'w bobl na ddylent wrthryfela yn ei erbyn. Meddiannodd unrhyw dir oedd yn perthyn i'r rhai oedd yn ei wrthwynebu fel y gwnaeth ar ôl Brwydr Bosworth. Oherwydd diddymu'r mynachlogydd, gwrthryfelodd llawer o bobl yn erbyn Harri VIII. Er bod y goron yn gadarn, nid dyma oedd y prif reswm pam fethodd y gwrthryfeloedd. Nid oedd y gwrthwynebiad i'r goron ar yr adeg hon mor fawr â'r bobl a gefnogai Harri a golygai hyn fod llwyddiant y gwrthryfeloedd yn sicr o fethu.

Roedd y ffaith nad oedd Harri yn etifedd cyfreithlon i'r orsedd hefyd wedi achosi gwrthryfeloedd ar draws y wlad. Fodd bynnag, nid oherwydd cryfder y goron fethodd y gwrthryfeloedd yn bennaf, ond oherwydd y ffaith fod Harri yn arweinydd da ac roedd ei bolisïau'n gweithio'n dda gyda'i bobl wrth iddo eu rhoi nhw yn gyntaf.

Nid oedd teyrnasiad Harri'r seithfed mor rymus nac mor gryf â theyrnasiad Harri'r wythfed. Nid oedd ganddynt y polisïau fel polisi ariannol. Chwaraeodd crefydd ran anferth yng ngwrthwynebiad y goron yn enwedig pan ddaeth Mari i rym.

Gorfododd Mari yr holl wlad i newid eu crefydd o Brotestaniaeth i Babyddiaeth. Achosodd hyn wrthryfeloedd ond serch hynny cawsant eu gostegu'n gyflym oherwydd cryfder y goron. Anfonodd Mari unrhyw un a wrthwynebodd Babyddiaeth i gael eu llosgi wrth y stanc ac yn ystod ei theyrnasiad cafodd cannoedd o bobl eu lladd. Oherwydd hyn roedd pobl yn ofni gwrthwynebu'r goron a chryfhaodd hyn y goron. O blith yr holl hawliadau i'r orsedd, Mari oedd yr un a achosodd y gwrthwynebiad mwyaf sylweddol.

© Hawlfraint y Goron 2018 

## Enghraifft batrymol 2

**I ba raddau rydych chi'n cytuno mai Diwygiad Protestannaidd Edward VI oedd y newid crefyddol mwyaf arwyddocaol yng Nghymru a Lloegr rhwng 1529 ac 1588?**

Yn ddiamau roedd Diwygiad Protestannaidd Edward VI – a achoswyd i raddau helaeth gan Ddug Somerset ac yn ddiweddarach Northumberland a weithredodd yn unigol fel rhaglywiaid am y rhan fwyaf o'i deyrnasiad – yn newid arwyddocaol mewn crefydd yn ystod y cyfnod rhwng 1529 ac 1588, cyfnod o anwadalwch crefyddol sylweddol yng Nghymru a Lloegr. Fodd bynnag, mae p'un ai mai Diwygiad Protestannaidd Edward oedd y newid crefyddol mwyaf arwyddocaol yn y cyfnod hwn yn agored i ddadl a thrafodaeth.

Yn ystod ei Ddiwygiad dilynodd Edward VI drywydd ei dad, Harri VIII, i raddau helaeth wrth symud ymlaen â'r newidiadau crefyddol a wnaeth ei dad o ran Diddymu'r Mynachlogydd a'r ymwahanu oddi wrth Rufain, er gyda naws brotestannaidd bendant. Yn wir gellir gweld ymagwedd llawer mwy Protestannaidd yn Niwygiad Edward nid yn unig wrth iddo Ddiddymu'r Siantrïau yn 1547 – parhad o waith ei dad yn Diddymu'r Mynachlogydd – ond hefyd wrth iddo gyflwyno'r ddau Lyfr Gweddi Gyffredin (1549 ac 1552). Roedd y Llyfrau Gweddi Gyffredin hyn, yn enwedig yr ail un, yn llawer mwy beirniadol o Babyddiaeth na rhai ei dad gyda fersiwn 1552 yn cynnwys beirniadaeth frathog o'r hyn a ystyriwyd yn 'urddwisgoedd pabaidd' wrth ddefnyddio'r rhain mewn gwasanaeth: cawsant eu gwahardd gan y Llyfr. Yn ogystal cyflwynodd hefyd y syniad a elwid y 'Cyfarwydd Du' a fyddai'n dod yn ganolbwynt i'r rhaniad sectyddol yng Nghymru a Lloegr yn ddiweddarach. Felly, er y gellir ystyried Diwygiad Edward VI fel yr un mwyaf arwyddocaol oherwydd y ffaith mai dyma'r tro cyntaf i newid radical mewn gwasanaeth crefyddol gael ei gyflwyno yn y cyfnod hwn – yn wahanol i Ddiwygiad Harri VIII pan gafwyd 'Pabyddiaeth heb Bab' – caiff ei arwyddocâd fel newid crefyddol ei lesteirio rhywfaint oherwydd byrder ei deyrnasiad (1547-1553). Golygai hyn na wnaeth llawer o'i newidiadau crefyddol barhau, gan i'w olynydd, Mari Babyddol, ddiddymu'r rhan fwyaf o'i newidiadau crefyddol. Golygai hyn bod rhai wedi diflannu fwy neu lai ar ôl ei deyrnasiad gan wneud eu harwyddocâd cyffredinol braidd yn wan.

Ond yn ogystal â Diwygiad Edward, gellid dadlau hefyd mai ymwahanu Harri VIII oddi wrth Rufain oedd y mwyaf arwyddocaol yn y cyfnod 1529-1588. Yn wir, digwyddodd Ymwahanu Harri VIII oddi wrth Rufain i raddau helaeth oherwydd 'Mater Mawr' y Brenin a ffrwydrodd yn 1526 oherwydd dymuniad Harri i ddirymu ei briodas â Catrin o Aragon er mwyn priodi Anne Boleyn. Cafodd Thomas Wolsey, Prif Weinidog y Brenin ar y pryd, y dasg o ddatrys y broblem. Er gwaethaf dwy flynedd o ddiplomyddiaeth ofer (1529-1530) a ddiweddodd mewn anfon cennad y Pab, y Cardinal Carpeggio, i Loegr i oruchwylio'r mater, ni chafodd hwnnw lwyddiant gan i'r Pab wrthod y fath drwydded, gan beri i Wolsey golli ei rym. Oherwydd bod Harri VIII wedi methu â chael trwydded gan y Pab, penderfynodd weithredu ar gyngor Thomas Cromwell, un o weinidogion Wolsey, a awgrymodd y dylai'r Brenin ymwahanu oddi wrth Rufain er mwyn cael ei ysgariad. Gwireddwyd hyn yn 1534 pan gyflwynodd y Senedd y Ddeddf Oruchafiaeth a'r Ddeddf Olyniaeth, gan derfynu'n ffurfiol y cydgysylltiad oedd wedi

© Hawlfraint y Goron 2018

bodoli ers mil o flynyddoedd rhwng Lloegr a Phabyddiaeth. Ni ellir bychanu arwyddocâd y newid crefyddol hwn. Dyma oedd y newid mwyaf mewn crefydd yn Lloegr ers mil o flynyddoedd. Yn ogystal, gellir dadlau ei fod yn llawer mwy arwyddocaol na Diwygiad Edward gan fod yr hollt hwn wedi parhau hyd heddiw yn wahanol i newidiadau Edward sydd wedi diflannu i raddau helaeth. Fodd bynnag, yn wahanol i newidiadau Edward, ni wnaeth yr Ymwahanu oddi wrth Rufain lawer mewn gwirionedd i newid ymddygiad crefyddol yn Lloegr gyda gwasanaethau eglwysi yn parhau i raddau helaeth i fod yn Babyddol eu harddull, gan olygu y gellid esgusodi lawer o bobl yn y cyfnod am beidio â sylweddoli bod y newid crefyddol hwn wedi digwydd, a thrwy hynny llesteirio'i arwyddocâd yn hyn o beth o gymharu â Diwygiad Edward.

Yn ogystal gellir hefyd dweud bod Diddymu'r Mynachlogydd (1536-1541) yn gydymgeisydd i Ddiwygiad Edward o ran ei arwyddocâd yn ystod y cyfnod hwn. I raddau helaeth digwyddodd Diddymu'r Mynachlogydd oherwydd dymuniad Cromwell i fanteisio ar y cyfoeth anferth a ddarganfu wrth iddo lunio'r Valor Ecclesiasticus yn 1535. Gan ddefnyddio'r esgus o lygredd mynachaidd, cychwynnodd Cromwell y Diddymu yn 1536 gan ddechrau gyda'r mynachlogydd lleiaf ble roedd y safonau wedi llithro fwyaf yn ôl pob golwg. Fodd bynnag o ganlyniad i Bererindod Gras 1539, cyflymwyd y diddymu drwy Ddeddf Seneddol 1539 a basiwyd i ddiddymu'r holl fynachlogydd. Digwyddodd hyn yn y diwedd yn 1541. Gellir ystyried arwyddocâd y newid crefyddol hwn fel rhywbeth mwy na Diwygiad Edward oherwydd ei fod nid yn unig yn rhagori arno o ran hirhoedledd (mae'r mynachlogydd wedi eu diddymu hyd heddiw), ond hefyd o ran yr effaith a gafodd ar gymdeithas gyda thlodi a chrwydraeth yn cynyddu'n sylweddol ar ôl y diddymu gan fod llawer o bobl yn dibynnu ar y mynachlogydd am wasanaethau elusennol ac addysgol. Fodd bynnag, gan mai agwedd gymdeithasol yw hon, efallai ei bod yn llai arwyddocaol mewn termau crefyddol na'r newidiadau gan Edward gan i'r rhain yn amlwg droi Lloegr yn wlad Brotestannaidd.

At hynny, gellir hefyd ystyried bod Gwrthddiwygiad Mari yn cystadlu â Diwygiad Edward o ran ei arwyddocâd. Ei nod oedd ailsefydlu Pabyddiaeth yn Lloegr a llwyddodd, am gyfnod byr ac o dan arweiniad Reginald Pole, i ddiddymu'r newidiadau crefyddol a wnaed gan Edward VI, ac yn 1555 cyflwynodd y Ddeddf Heresi a arweiniodd at farwolaeth tua thri chant o Brotestaniaid. Fodd bynnag, gellir cymharu newidiadau Mari gyda rhai ei brawd o ran eu diffyg parhad gan i'w theyrnasiad byr ddiweddu gydag esgyniad Elisabeth Brotestannaidd a wnaeth yr un peth ag y gwnaeth Mari i ddiwygiadau crefyddol ei brawd – diwygiodd hithau hefyd y rhan fwyaf o newidiadau crefyddol ei chwaer.

Yn olaf, gellir hefyd dadlau mai'r newidiadau crefyddol a wnaed gan Elisabeth yn ystod y cyfnod hwn oedd y rhai mwyaf arwyddocaol. Yn wir, yn y cyfnod hwn dilynodd Elisabeth 'drydedd ffordd' yn ei pholisi crefyddol gan geisio gwella'r rhaniad sectyddol yn Lloegr a fu'n fwrn ar ei rhagflaenwyr. Gellir gweld yr awydd am drydedd ffordd yn ei Deddf Oruchafiaeth a Deddf Unffurfiaeth 1559 gyda'r Ddeddf Oruchafiaeth yn adfer Elisabeth yn bennaeth ar yr Eglwys er fod hynny o dan y teitl 'Llywodraethwr' er mwyn peidio â gelyniaethu'r Pabyddion, tra bod y ddeddf Unffurfiaeth wedi cyflwyno Llyfr Gweddi Gyffredin oedd yn fwy

cyfeillgar i Babyddion ynghyd â chaniatáu addoli preifat i Babyddion. Ni ellir dweud rhy ychydig am arwyddocâd y sefydlogi gan Elisabeth oherwydd nid yn unig parodd yn hirach na Diwygiad Edward VI o ran sefydlogrwydd ond hefyd cafodd effaith uniongyrchol llawer mwy sylweddol gyda gwasanaethau crefyddol yn cael eu newid ac yn wir gan leihau'r rhaniad crefyddol yn Lloegr.

At ei gilydd, cafodd yr holl newidiadau crefyddol yn y cyfnod hwn arwyddocâd difrifol. Fodd bynnag, o ran p'un ai mai Diwygiad Edward VI oedd y pwysicaf o'r newidiadau hyn rhaid i mi ddadlau i'r gwrthwyneb: yn fy marn i, y Sefydlogi gan Elisabeth oedd y newid mwyaf arwyddocaol o bell ffordd oherwydd, nid yn unig fe barodd ond hefyd i raddau helaeth daeth â'r heddwch dros dro i'r rhaniad crefyddol a nodweddodd rhan gynharaf y cyfnod hwn, yr hyn a fethodd yr holl newidiadau crefyddol eraill eu cyflawni.

© Hawlfraint y Goron 2018 